

# Garddwr

## Cyflwyniad

Mae Garddwyr yn plannu blodau, llwyni, lawntiau a choed. ac yn gofalu amdanynt Gallent fod yn gweithio mewn parc cyhoeddus, ar ymyl ffordd, mewn tai preifat, neu'n paratoi planhigion i'w gwerthu mewn canolfan arddio neu feithrinfa blanhigion. Mae angen i Arddwyr wybod am wahanol fathau o blanhigion, Mae hyn yn cynnwys gwybod ble y bydd planhigyn yn tyfu'n dda a sut i ofalu amdano.



## Adwaenir hefyd fel

- Garddwr
- Gweithiwr Garddwriaeth, Amwynder
- Garddwr/Garddwraig Tymhorol
- Garddwr/Garddwraig Tirlun

## Gweithgareddau Gwaith

Mae Garddwyr yn paratoi ardaloedd i'w plannu drwy fesur a marcio'r tir. Efallai y bydd angen i chi baratoi'r pridd drwy ychwanegu compost neu wrtaith. Yna byddwch yn plannu blodau, llwyni a choed gan ddilyn cynllun.

Mae eich dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys:

- plannu
- dyfrio
- chwistrellu planhigion gyda chemegau i'w gwarchod rhag pla
- torri glaswellt
- tocio planhigion a thacluso perthi
- cadw'r ardal yn rhydd o chwyn a sbwriel.

Mae rhai Garddwyr hefyd yn gosod llwybrau a chodi ffensys. Efallai y byddwch yn gwneud gwaith gyda choncrit a briciau.

Mae rhai yn arbenigo mewn gwaith meithrinfeydd a chanolfan arddio sy'n cynnwys tyfu planhigion newydd a gofalu amdanynt a'u paratoi i'w gwerthu. Bydd rhaid i chi fod yn hyderus wrth ymdrin â'r cyhoedd, gan helpu gyda'u cwestiynau a'u hymholiadau. Bydd angen i chi archwilio'r planhigion am afiechydon a phlâu.

Hefyd mae rhai Garddwyr sy'n cynllunio, gofalu a chynnal planhigion ac ardaloedd gwyrdd y tu fewn i adeiladau, mewn llefydd fel swyddfeydd a chanolfannau siopa. Caiff hyn ei alw'n dirlunio dan do.

Yn ogystal â defnyddio offer llaw, efallai y byddwch yn gyrru tractors ac yn defnyddio peiriannau ysgafn eraill fel tocwyr perthi, peiriannau palu a pheiriannau torri glaswellt.

Bydd rhaid i chi wybod sut i storio, trin a glanhau cyfarpar. Gall cynnal a chadw'r cyfarpar gynnwys gwneud mân atgyweiriadau.

Efallai y bydd gallu darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

Er mwyn bod yn Arddwr, byddwch angen:

- mwynhau gweithio yn yr awyr agored ym mhob tywydd
- gallu addasu a gwneud pob math o dasgau ymarferol
- gallu gwneud gwaith caled, corfforol, fel palu, codi, a chludo
- meddu ar sgiliau gwaith tîm
- gallu dilyn cynlluniau a darluniau gan Ddylunwyr Tirlun a Phenseiri

- meddu ar sgiliau rhifedd i fesur yn gywir a gweld faint o ddeunyddiau sydd eu hangen
- meddu ar agwedd gyfrifol a'r gallu i ddilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch, ar gyfer gweithio gyda chyfarpar a chemegau.
- gallu ymdrin â'r cyhoedd yn gwrtais a bod yn gymwynasgar.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog

Cyfraddau cyflog bras yw'r cyfraddau a roddir isod.

- Cychwynnol: £17,000 - £18,000
- Gyda phrofiad: £19,000 - £21,000
- Safleoedd uwch: £22,000 - £23,500

Mae'r gyfradd yr awr fel arfer yn amrywio o'r isafswm cyflog cenedlaethol hyd at oddeutu £10 yr awr.

### Oriau gwaith

Fel arfer bydd Garddwyr yn gweithio 39 awr yr wythnos. Fodd bynnag gallai oriau gwaith gynnwys gwaith gyda'r nos/ar y penwythnos ac oriau anghyson, gan ddibynnu ar y tymor a'r tywydd (er enghraifft mae'r oriau'n hirach yn yr haf pan fydd angen torri'r glaswellt).

### Ble allwn i weithio?

Ymhlith y cyflogwyr mae:

- awdurdodau lleol a chenedlaethol gyda chyfrifoldeb am reoli parciau cyhoeddus, gerddi ac ardaloedd wedi'u tirlunio.
- contractwyr garddwriaethol a chwmnïau garddio tirlunio.
- meithrinfeydd planhigion
- canolfannau garddio
- ffermydd ffrwythau

Mae cyfleoedd ar gyfer Garddwyr yn codi mewn trefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig drwy'r DU gyfan.

### Hunangyflogaeth

Ceir cyfleoedd i Arddwyr fod yn hunangyflogedig, er enghraifft i dorri glaswellt ar contract neu fel Garddwyr mewn gerddi preifat.

### Ble mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?

Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol, yn y Ganolfan Byd Gwaith, ar wefan Dod o Hyd i Swydd, ac ar fyrddau swyddi cyffredinol a garddwriaethol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

### Llwybrau Mynediad

Bydd cymhwyster lefel 2 yn eich helpu i ddechrau yn yr yrfa hon. Byddai Prentisiaeth Lefel Ganolradd neu Uwch yn fan cychwyn da. Am ragor o wybodaeth ynglyn ag ymgeisio am brentisiaeth, cymrwch gip ar ein herthygl wybodaeth 'Prentisiaeth- sut mae ymgeisio'.

Gallwch chi benderfynu mynd i'r coleg i astudio cwrs llawn amser mewn garddwriaeth, cyn edrych am swydd.

Mae BTEC yn cynnig cymwysterau lefel 2 a 3 mewn garddwriaeth.

Mae gwasanaethau tir City & Guilds yn darparu:

- dyfarniadau, tystysgrifau a diplomâu Lefel 1 mewn astudiaethau tir.

- tystysgrifau, tystysgrifau estynedig a diplomâu lefel 2 mewn garddwriaeth.
- tystysgrifau, diplomâu atodol, diplomâu, a diplomâu estynedig lefel 3 mewn garddwriaeth.

Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS) yn cynnig ei chymwysterau cenedlaethol ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys tystysgrifau theori ar lefelau 2 a 3, a chymwysterau mewn garddwriaeth ymarferol ar lefelau 1-3. Ar wefan RHS, ceir rhestr o golegau sy'n cynnig y cymwysterau hyn, gan gynnwys drwy ddsygu o bell.

Gall myfyrwyr sydd â rhywfaint o brofiad ymarferol yn barod ymgeisio am Interniaethau Gwirfoddol tymor byr gyda'r RHS. Byddai hwn yn rhoi'r cyfle i chi weithio mewn gardd RHS a dysgu sgiliau a thechnegau garddio sylfaenol. Ewch i wefan RHS am ragor o wybodaeth.

### **Hyfforddiant**

Gall fod yn bosibl hefyd i ddod o hyd i waith ac astudio rhan amser. Mae rhai cyflogwyr yn gadael i weithwyr garddwriaeth amwynder fynychu'r coleg ar sail diwrnodau astudio.

Efallai y gallech weithio at ddyfarniadau, tystysgrifau a diplomâu gwasanaethau tir City & Guilds mewn garddwriaeth seiliedig ar waith (lefelau 1-3) neu sgiliau garddwriaeth ymarferol (lefel 1).

### **Dilyniant**

Gallech gael dyrchafiad i fod yn Arweinydd Tîm neu'n Oruchwyliwr, yn gyfrifol am dîm o Weithwyr Garddwriaeth. Gyda phrofiad helaeth, a, fel arfer, rhagor o gymwysterau (fel gradd sylfaen, HND neu radd), gallech weithio eich ffordd i swydd rheolwr.

### **Deddf Adsefydlu Troseddwyr**

Mae rhai swyddi sydd, er enghraifft, yn cynnwys gweithio ar dir ysgol neu o gwmpas adeiladau gofal cymdeithasol, yn eithriadau i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi gyflenwi gwybodaeth i gyflogwr am unrhyw euogfarn sydd wedi darfod neu nad yw wedi darfod, rhybuddiad, cerydd, neu rybudd, os gofynnir i chi wneud.

Mae hyn yn wahanol i yrfaeodd eraill, lle mae'n rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am euogfarnau sydd heb ddarfod yn unig.

### **Profiad gwaith**

Byddai profiad blaenorol o arddio neu waith arall yn yr awyr agored, naill ai â thâl neu yn wirfoddol, yn ddefnyddiol iawn ar gyfer yr yrfa hon.

## **Cymwysterau**

Does dim angen cymwysterau fel arfer i fod yn Arddwr. Fodd bynnag mae'n beth da cael rhai cymwysterau TGAU, yn enwedig mewn pynciau gwyddonol, neu gymwysterau perthnasol cyfatebol.

Fel arfer, i gael eich derbyn ar Brentisiaeth Lefel Canolradd neu Uwch, bydd angen 5 TGAU gradd C neu uwch arnoch, gan gynnwys efallai Saesneg a Mathemateg.

Does dim isafswm gofynion academiaidd ar gyfer gwneud cymhwyster Cyntaf (BTEC) Lefel 2 Edexcel.

Ar gyfer mynediad i gymhwyster Cenedlaethol (BTEC) Lefel 3 Edexcel fel arfer bydd angen 4 TGAU (A\*-C) neu gymhwyster Cyntaf lefel 2.

Nid oes gofynion penodol ar gyfer cymwysterau Gwasanaethau Tir City & Guilds mewn Astudiaethau Tir neu Arddwriaeth. Bydd darparwyr cyrsiau'n edrych a oes gennych chi'r potensial i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, gyda'r holl gymwysterau uchod, mae'r gofynion yn gallu amrywio, felly holwch y colegau unigol yn ofalus.

## **Cyfleoedd i Oedolion**

### **Terfynau oedran**

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfynau oedran ar gyfer mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant,

oni bai eu bod yn gallu dangos bod gwir angen am y terfynau hyn.

### **Sgiliau/profiad**

Bydd rhai ymgeiswyr wedi sicrhau sgiliau a gwybodaeth berthnasol drwy brofiad garddio neu waith awyr agored arall, boed â thâl neu beidio.

### **Cyrsiau**

Fel arfer bydd colegau'n ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydyn nhw'n diwallu eu gofynion mynediad arferol. Edrychwch ar bolisi derbyn y colegau unigol.

Efallai y byddwch yn gallu cael mynediad a hyfforddiant drwy Brentisiaeth Lefel Canolradd neu Brentisiaeth Lefel Uwch mewn Garddwriaeth.

Mae gwefan y Gymdeithas Arddwriaeth Genedlaethol (RHS) yn cynnwys rhestr o sefydliadau sy'n cynnig opsiynau dysgu o bell sy'n arwain at gymwysterau RHS.

Gallwch edrych am gyrsiau perthnasol ar wefan Lantra, y cyngor sgiliau sector ar gyfer y sector tir ac amgylcheddol.

### **Cyllid**

Mae cyllid ar gyfer astudiaethau pellach ar gael gan Ymddiriedolaeth Coleg Studley ac Ymddiriedolaeth Merlin. Dylai ymgeiswyr edrych ar wefannau'r Ymddiriedolaethau i weld a ydyn nhw'n gymwys.

### **Ystadegau**

- Mae 60% o weithwyr garddwriaeth amwynder yn hunangyflogedig.
- Mae 5% yn gweithio rhan amser.
- Mae gan 6% oriau hyblyg.

## **Gwybodaeth Bellach**

### **Cysylltiadau**

- **Apprenticeships**  
National Apprenticeship Service (NAS)  
Ffôn 0800 015 0400  
E-bost [nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk](mailto:nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk)  
Gwefan [www.apprenticeships.org.uk](http://www.apprenticeships.org.uk)
- **LGjobs**  
Local government vacancies  
Gwefan [www.lgjobs.com](http://www.lgjobs.com)
- **Skills Development Scotland - Modern Apprenticeships**  
Ffôn 0800 9178000  
E-bost [info@skillsdevelopmentscotland.co.uk](mailto:info@skillsdevelopmentscotland.co.uk)  
Gwefan [www.myworldofwork.co.uk/modernapprenticeships](http://www.myworldofwork.co.uk/modernapprenticeships)
- **myjobscotland: Scottish local government vacancies**  
Scottish enquiries  
E-bost [myjobscotland@cosla.gov.uk](mailto:myjobscotland@cosla.gov.uk)  
Gwefan [www.myjobscotland.gov.uk](http://www.myjobscotland.gov.uk)
- **Lantra**  
Skills for land-based and environmental industries  
Cyfeiriad Lantra House, Stoneleigh Park, Coventry, Warwickshire CV8 2LG  
Ffôn 02476 696996  
E-bost [reception@lantra.co.uk](mailto:reception@lantra.co.uk)  
Gwefan [www.lantra.co.uk](http://www.lantra.co.uk)
- **City & Guilds Land Based Services**

Cyfeiriad Building 500, Abbey Park, Stareton, Warwickshire CV8 2LY  
Ffôn 02476 857300  
E-bost [information@cityandguilds.com](mailto:information@cityandguilds.com)  
Gwefan [www.nptc.org.uk](http://www.nptc.org.uk)

- **GreenJobs**  
E-bost [info@greenjobs.co.uk](mailto:info@greenjobs.co.uk)  
Gwefan [www.greenjobs.co.uk](http://www.greenjobs.co.uk)
- **Horticultural Correspondence College (HCC)**  
Cyfeiriad Fiveways House, Westwells Road, Hawthorn, Corsham SN13 9RG  
Ffôn 01225 816700  
Gwefan [www.hccollege.co.uk](http://www.hccollege.co.uk)
- **Studley College Trust**  
Cyfeiriad The Old Post Office, Lower Boddington, Daventry, Northants NN11 6YB  
E-bost [studleyct@btinternet.com](mailto:studleyct@btinternet.com)  
Gwefan [www.studleytrust.co.uk](http://www.studleytrust.co.uk)
- **Institute of Horticulture (IoH)**  
Ffôn 01992 707025  
E-bost [ioh@horticulture.org.uk](mailto:ioh@horticulture.org.uk)  
Gwefan [www.horticulture.org.uk](http://www.horticulture.org.uk)
- **Grow**  
Horticulture careers  
Ffôn 0845 7078007  
Gwefan [www.growcareers.info](http://www.growcareers.info)
- **College of Agriculture, Food & Rural Enterprise (CAFRE)**  
Irish enquiries  
Ffôn 0800 0284291  
E-bost [enquiries@cafre.ac.uk](mailto:enquiries@cafre.ac.uk)  
Gwefan [www.cafre.ac.uk](http://www.cafre.ac.uk)
- **Chartered Institution of Water and Environmental Management (CIWEM)**  
Cyfeiriad 15 John Street, London WC1N 2EB  
Ffôn 020 7831 3110  
E-bost [frontofhouse@ciwem.org](mailto:frontofhouse@ciwem.org)  
Gwefan [www.ciwem.org](http://www.ciwem.org)
- **Royal Horticultural Society (RHS)**  
Cyfeiriad 80 Vincent Square, London SW1P 2PE  
Ffôn 0845 2605000  
E-bost [careerinfo@rhs.org.uk](mailto:careerinfo@rhs.org.uk)  
Gwefan [www.rhs.org.uk](http://www.rhs.org.uk)
- **Merlin Trust**  
Cyfeiriad Royal Botanic Gardens, Kew, Richmond, Surrey TW9 3AB  
Ffôn 020 8332 5585  
E-bost [info@merlin-trust.org.uk](mailto:info@merlin-trust.org.uk)  
Gwefan [www.merlin-trust.org.uk](http://www.merlin-trust.org.uk)
- **Institute for Horticultural and Rural Studies (IHRS)**  
Cyfeiriad Pethick Park, Looe, Cornwall PL13 1QR  
Ffôn 01503 240835  
E-bost [info@ihrs.ac.uk](mailto:info@ihrs.ac.uk)  
Gwefan [www.ihrs.ac.uk](http://www.ihrs.ac.uk)
- **National Trust (NT)**  
Gwefan [www.nationaltrust.org.uk](http://www.nationaltrust.org.uk)

- **Belfast City Council**  
Irish enquiries  
Cyfeiriad General enquiries, Chief Executive's Department, Belfast City Hall, Belfast.  
Ffôn 028 9032 0202  
E-bost parksinfo@belfastcity.gov.uk  
Gwefan [www.belfastcity.gov.uk](http://www.belfastcity.gov.uk)
- **National Trust for Scotland (NTS)**  
Scottish enquiries  
E-bost information@nts.org.uk  
Gwefan [www.nts.org.uk](http://www.nts.org.uk)
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**  
Ffôn 0800 028 4844  
Gwefan [ams.careerswales.com/](http://ams.careerswales.com/)
- **Soil Association**  
Cyfeiriad South Plaza, Marlborough Street, Bristol, BS1 3NX  
Ffôn 0117 314 5000  
Gwefan [www.soilassociation.org](http://www.soilassociation.org)
- **Volunteering Wales (Welsh Enquiries)**  
Ffôn 0800 288 8329  
E-bost volunteering-wales@wcva.org.uk  
Gwefan [www.volunteering-wales.net](http://www.volunteering-wales.net)

## Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Gweithiwr Coedwig
- Coedwigwr
- Cynorthwy-ydd Canolfan Arddio
- Gweithiwr Garddwriaeth Fasnachol
- Therapydd Garddwriaethol
- Gofalwr tir/Tirmon
- Triniwr Coed
- Rheolwr Cefn Gwlad
- Ceidwad Cefn Gwlad
- Gwyddonydd Garddwriaethol
- Pensaer Tirweddau
- Gwyddonydd Tirwedd
- Rheolwr Tirwedd
- Swyddog Cadwraeth Amgylcheddol
- Rheolwr Garddwriaethol
- Warden Parciau
- Ceidwad y Glaslawr Golf
- Ailnaturaïwr
- Agro-ecolegydd